**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Addysg a Sgiliau

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mercher, 26 Hydref 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M Durke (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | F M Gordon | B Hopkins |
| L R Jones | S Joy | Y V Jardine |
| S Pritchard | T M White | R V Smith |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Sarah Hughes | Rheolwr Tîm Strategaeth Addysg |
| Rhodri Jones | Pennaeth y Gwasanaeth Cyflawniad a Phartneriaeth |
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr addysg |
| Melissa Perry | Cyfreithiwr Dan Hyfforddiant |
| David Thomas | Prif Swyddog Gwella Ysgolion |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd R V Smith - Aelod y Cabinet Dros Addysg a Dysgu

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Dim

---

**19 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**20 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforedig Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 28 Medi 2022 fel cofnod cywir.

**21 Cryfhau Arweinwyr Ysgol.**

Siaradodd Helen Morgan-Rees a'r Cynghorydd Robert Smith ymhellach am yr adroddiad, y cyflwyniad a'r drafodaeth yn y cyfarfod blaenorol a rhoddodd drosolwg byr a oedd yn ymwneud â chefndir y gwaith a wnaed yn Abertawe i ddatblygu ac adeiladu'r rhaglen cryfhau arweinwyr ysgolion.

Amlinellwyd yr ymagwedd gyflenwol a ddefnyddiwyd yn Abertawe sy'n gweithio ochr yn ochr â rhaglenni arweinyddiaeth Partneriaeth rhanbarthol a mentrau Llywodraeth Cymru.

Mae llawlyfr yn cael ei ddatblygu sy'n canolbwyntio ar ddatblygu arweinwyr newydd a gweithredol yn Abertawe.

Cafwyd cyflwyniad manwl gan David Thomas a Rhodri Jones a oedd yn amlinellu ac yn ymdrin â’r meysydd canlynol:

- Perthynas waith a chysylltiadau rhagorol â Phartneriaeth/Llywodraeth Cymru a chefnogaeth i ddulliau rhanbarthol a chenedlaethol o wella;
- Gwaith yr ymgynghorwyr gwella ysgolion;
- E-bost/cylchlythyr wythnosol yr Adran Addysg i bob ysgol sy'n ymdrin â phynciau a gwybodaeth amrywiol ac sydd bellach ar gael i holl staff ysgolion;
- Agenda ymweliadau cymorth ar gyfer ysgolion – cynllunio ar gyfer dysgu proffesiynol ar gyfer staff newydd a datblygu staff presennol yn arweinwyr canol;
- Mae pob ysgol yn cael un y tymor gan yr ymgynghorwyr gwella ysgolion;
- Ffocws allweddol yr ymweliadau hyn sy’n seiliedig ar ganllawiau Llywodraeth Cymru ar arweinyddiaeth, addysgu a lles;
- Adborth a data o'r ymweliadau hyn a all gynnwys ymgynghori â disgyblion unigol a grwpiau disgyblion;
- Cynllun arweinyddiaeth wasgaredig a ffocws a nodau’r cynllun i uwch-arweinwyr ddatblygu ac annog datblygiad arweinwyr canol ar draws yr ysgol a fydd yn cynorthwyo wrth ledaenu gwybodaeth ac arbenigedd;
- Gweithio gyda gweithwyr addysg proffesiynol i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o ddilyniant a phrofiad dysgu, gyda ffocws allweddol ar gwricwlwm newydd i Gymru;
- Effaith y pandemig ar archwiliadau ac adolygiadau staff a chroesawu ailddechrau'r rhain mewn ysgolion, sy'n ceisio nodi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd ar gael a'r bylchau y mae angen mynd i'r afael â hwy;
- Cysylltiadau rhagorol â Phartneriaeth drwy gynlluniau rhannu swydd rhwng cydweithiwr y Tîm Gwella Ysgolion ac yn arbennig y nifer uchel sy'n manteisio'n lleol ar y rhaglen arweinwyr canol ac uwch, yn ogystal â'r cymhwyster darpar benaethiaid a phenaethiaid cenedlaethol;
- O ran nifer yr arweinwyr sefydledig sydd am gymryd rhan yn y rhaglenni cenedlaethol, mae mwy o ddiddordeb yn Abertawe, sy'n amlinellu bod mwy o gryfder yn ein hardal;
- Mae cyfle secondiad newydd yn cael ei ddatblygu’n lleol sy’n galluogi arweinwyr canol a darpar benaethiaid i gael mynediad at gyfle secondiad ac mae hefyd gyfle iddynt "gyfnewid" ysgolion am gyfnod;
- Manylwyd ac amlinellwyd y modd y caiff y cynllun secondiad ei weithredu a'i arwain gan uwch-bennaeth gyda chymorth yr adran, gan gynnwys y cyfleoedd a'r manteision ar gyfer dysgu, arfer dda a rennir a syniadau a chyfleoedd ôl-lenwi i staff;
- Manylwyd ar fanteision proffesiynol a phersonol y cynllun hwn i athrawon sydd wedi'u secondio ac sy'n rhan o'r cynllun cyfnewid ysgolion;

- Cynllun mentora a chronfa ymgynghori sy'n gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan arweinwyr profiadol i gynorthwyo a rhoi cymorth ac arweiniad i ysgolion eraill;
- Edrych i ddatblygu panel llywodraethwyr yn debyg i'r cynllun mentora;
- Rôl yr ymgynghorwyr gwella ysgolion a chysylltiadau rhagorol â rhwydweithiau UCA a SCASH wrth gefnogi ysgolion yn eu proses hunanwerthuso;
- Mae ymgynghorwyr gwella ysgolion hefyd yn cynorthwyo cyrff llywodraethu i recriwtio uwch-arweinwyr;
- Mae dysgu proffesiynol a'r cymwysterau sydd ar gael i arweinwyr canol ac uwch yn bennaf drwy Partneriaeth, ond mae PCYDDS a’r Brifysgol Agored yn datblygu cynnig ehangach i athrawon;
- Materion sy'n ymwneud â nifer yr athrawon sy’n dymuno symud ymlaen i rolau arweinyddiaeth ganol ac uwch, sy’n fater cenedlaethol, nid lleol;

Gofynnodd aelodau'r pwyllgor nifer o gwestiynau a gwnaethant sylwadau ynghylch yr wybodaeth a amlygwyd yn y cyflwyniad cynhwysfawr ac ymatebodd y Swyddogion a'r Aelod Cabinet yn unol â hynny.

## 22 Cynllun Gwaith.

Siaradodd y Cadeirydd ymhellach am y cynllun gwaith drafft a ddosbarthwyd.

Mae’r cyfarfod nesaf hefyd i fod i dderbyn diweddariad ar Gryfhau Arweinwyr Ysgol ac awgrymwyd y dylai’r pwyllgor dderbyn rhagor o wybodaeth am adolygiadau gan gymheiriaid a’r gefnogaeth a’r cyfnod sefydlu ar gyfer penaethiaid ac arweinwyr ysgol newydd ac, os yw amserlenni’n caniatáu, eu bod hefyd yn derbyn gwybodaeth am y llwybrau gyrfa posib sydd ar gael ar gyfer athrawon newydd drwy Partneriaeth.

Nodwyd y bydd y pwyllgor craffu addysg yn edrych ar effaith y ddeddfwriaeth newydd ar y ddarpariaeth ADY, ond byddai’n ddefnyddiol pe bai’r pwyllgor hwn yn cael gweld canlyniadau eu hymchwiliadau.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.13 pm

**Cadeirydd**